

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor
Cymuned Llansantffraed a
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos
Fawrth, 5ed Hydref 2021 yn Festri
Capel Siloh, Llanon**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cyngorydd Phil Tomlins; y Cynghorwyr Sheila Davies, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Andrew Phillips, Aled Roberts a Bryan Tomlins.
Y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**Minutes of a meeting of Llansantffraed
Community Council held at 7:30 pm on
Tuesday, 5th October 2021 at the Silo
Chapel Vestry, Llanon**

Present:

Chairman: Phil Tomlins
Councillors Sheila Davies, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Andrew Phillips, Aled Roberts and Bryan Tomlins.
County Councillor Dafydd Edwards
Denfer Morgan (Clerk)

699 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Jim Hughes, Lowri Jones a Lodwick Lloyd, am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**700 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a
gynhaliwyd ar 3ydd Awst 2021**
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Awst 2021 fel rhai cywir.

701 Materion yn codi o'r Cofnodion

- a) Cofnod 689a) (Llwybr Neuadd yr Eglwys) – dywedodd y Cyngorydd Dafydd Edwards nad oedd modd creu llwybr a oedd yn addas ar gyfer yr anabl ond y byddai yn dal i archwilio gwelliannau posib iddo fe.
- b) Cofnod 689b) – byddai'r bwlch rhwng ffiniau'r stad newydd a Chylch Peris yn cynnwys draenio dŵr o'r arwyneb.
- d) Cofnod 698a) i adolygu'r ddarpariaeth o fagiau baw cŵn rhad ac am ddim yn ar ôl y batsh presennol.

702 Archwiliad Misol

Adroddodd y Cynghorwyr Aled Roberts a Phil Tomlins ar y materion canlynol:

- Roedd angen gosod saem ar gyfarpar y lle chwarae.

699 Apologies

Councillors Jim Hughes, Lowri Jones and Lodwick Lloyd apologised for their inability to attend the meeting.

**700 Minutes of the Monthly Meeting held
on 3rd August 2021**

The Minutes the Meeting of the Council held on 3rd August 2021 were confirmed as being a correct record.

701 Matters arising from the Minutes

- a) Minute 689a) (Church Hall Footpath) – Councillor Dafydd Edwards stated that it was not possible to create a disabled-friendly footpath but that possible improvements were being investigated.
- c) Minute 689b) – the gap between Cylch Peris and the new estate would include surface water drainage.
- b) Minute 698a) to review the provision of free dog poo bags after this latest batch.

702 Monthly Inspection

Councillors Aled Roberts and Phil Tomlins reported on the following matters.

- Playground equipment needed greasing.

- 703 Y Chalet / Cwt y Pysgotwyr**
Nodwyd fod y grant o £2,992 wedi ei dderbyn oddi wrth y Cyngor Sir.
- 704 Y Lle Chwarae**
Adroddwyd canlyniad y cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor a Phwyllgor Neuadd Bentref a Chae Chwarae Llanon ynghylch cais y Cyngor am dir ychwanegol sy'n ffinio gyda'r lle chwarae ac i osod mainc ar dir gerllaw.

Ar ôl dangos iddynt faint o dir oedd yr hollir amdano, roedd y cynrychiolwyr wedi dweud y byddent yn argymhell y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf fod y tir yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor. Roedd manylion y cyfarpar arfaethedig hefyd wedi'u rhoi i'r Pwyllgor a disgwyli'd ei hateb.

O ran y fainc arfaethedig, argymhellwyd ei fod yn cael ei osod ar ochr y llwybr troed gyferbyn a'r man chwarae a chytunwyd i hwn.
- 705 Materion Ariannol**
PENDERFYNWYD talu'r canlynol:
- | | |
|---|-----------|
| Bagiau Baw Cŵn | £21 |
| Dau argraffiad alwminiwm ar gyfer y chalet newydd | £58 |
| Cyngor Sir Ceredigion | £5 |
| Vision ICT | £150 |
| Robert Griffiths | £1,324.80 |
| Robert Griffiths (torri'r cae chwarae)
(50%) | £285 |
| <i>Cyflog y Clerc (Gorff-Awst-Medi):</i> | |
| Denfer Morgan | £636.48 |
| CThEM (TWE) | £159.12 |
- 706 Cynllun Grant Cymunedol Wales and West**
Adroddodd y Clerc fod Wales & West, er mwyn hwyluso'r sefyllfa, wedi cytuno cyllico dau fainc ar gyfer y Waun a'r hysbysfwrdd ger Cylch Peris.
PENDERFYNWYD:
- 703 The Chalet / Fishermen's Hut**
It was noted that the grant of £2,992 had been received from the County Council.
- 704 Playground**
The outcome of the meeting between representatives of the Council and the Llanon Village Hall and Playing Field Committee in respect of the Council's request for additional land to extend the playground and to place a bench on adjoining land was reported.

After being shown the amount of land being requested, the representatives had stated that they would recommend to the Committee at its next meeting that the land be transferred to the Council for this purpose. Details of the proposed playground equipment had also been provided to the Committee and its decision was awaited.
- With regard to the proposed bench, it was recommended that it be placed on the footpath verge opposite the playground and this was agreed.
- 705 Finance Matters**
It was **RESOLVED** to pay the following:
- | | |
|---|-----------|
| Dog Poo Bags | £21 |
| Two aluminium prints for the new chalet | £58 |
| Ceredigion County Council | £5 |
| Vision ICT | £150 |
| Robert Griffiths | £1,324.80 |
| Robert Griffiths (playing field cut)
(50%) | £285 |
| <i>Clerk's Salary (July-Aug-Sept):</i> | |
| Denfer Morgan | £636.48 |
| HMRC (PAYE) | £159.12 |
- 706 Wales and West Community Grant Scheme**
The Clerk reported that Wales & West in order to progress matters, had agreed to finance two benches for the Waun and the noticeboard near Cylch Peris.
It was **RESOLVED**:

	<ul style="list-style-type: none"> i) bwrw mlaen i archebu'r eitemau hyn ar gyfer eu hadnal gan Wales & West; a ii) rhoi manylion perchnogaeth y tir i Morgan Construction. 	<ul style="list-style-type: none"> i) to proceed to order these items for reimbursement by Wales & West; and ii) to provide Morgan Construction with details of land ownership.
707	<p>Lle Chwarae ar gyfer Nebo</p> <p>PENDERFYNWYD gofyn i'r Cyngorydd Lodwick Lloyd os oedd ganddo darn o dir mewn golwg allai fod yn leoliad posib ar gyfer lle chwarae yn Nebo.</p>	<p>707 A Playground for Nebo</p> <p>It was RESOLVED to ask Councillor Lodwick Lloyd as to whether he had identified land that could be suitable for locating a possible playground in Nebo.</p>
708	<p>Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig ar gyfer Llanon</p> <p>Adroddodd y Clerc fod gwybodaeth wedi'i dderbyn oddi wrth y Cyngor Sir yn dweud fod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir (yr Awdurdod Ffyrdd Lleol) a Chyfadran Priffyrrd Llywodraeth Cymru a taw Llywodraeth Cymru fyddai'n arwain ar unrhyw gynllun newydd gan gychwyn gydag ymarferiad ymgynghori.</p> <p>Gofynwyd i'r Cyngorydd Dafydd Edwards dal i wasgu am ddarparu maes parcio ar y tir sy'n ffinio gyda Hafan yr Efail.</p> <p>PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa presennol.</p>	<p>708 Proposed parking restrictions for Llanon</p> <p>The Clerk reported that information received from the County Council stating that a meeting has been held between representatives of the County Council (the Local Highways Authority) and the Welsh Government Highways Division and that it would be the Welsh Government who will be progressing any new scheme commencing with a new consultation exercise.</p> <p>Councillor Dafydd Edwards was also asked to keep pressing for the provision of the car park on the land adjoining Hafan yr Efail.</p> <p>It was RESOLVED to note the current position.</p>
709	<p>Ray Ceredigion</p> <p>Cytunwyd cyfrannu £200 i Ray Ceredigion fel arwydd o ddiolch am y sesiynau chwarae i'r plant a ddarparwyd ganddynt yn ystod yr haf.</p>	<p>709 Ray Ceredigion</p> <p>It was agreed to make a contribution of £200 to Ray Ceredigion as a gesture of thanks for the play sessions provided by them for children during the summer.</p>
710	<p>Cais am Groesfan ar y Stryd Fawr</p> <p>Cynrychioliadau a dderbyniwyd gan Aelodau am groesfan i gerddwyr a hebryngydd croesfan ysgol ar yr A487 yng nghyffiniau Heol yr Ysgol a Hafan-yr-Efail yn Llanon.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth, gan gynnwys ystyriaeth blaenorol o'r mater,</p> <p>PENDERFYNWYD gofyn i'r Cyngorydd Dafydd Edwards gael gafael ar fanylion y criteria ar gyfer darparu croesfan o'r fath.</p>	<p>710 Request for Pedestrian Crossing on y Stryd Fawr</p> <p>Consideration was given to representations received by Members for a pedestrian crossing and a school crossing patrol on the A487 in the vicinity of Heol yr Ysgol and Hafan-yr-Efail at Llanon.</p> <p>Following discussion, including previous consideration of the matter, it was RESOLVED to request Councillor Dafydd Edwards to obtain details of the criteria for the provision of such a crossing.</p>

711	Unrhyw fater cymwys arall	711	Any Other Competent Business
a)	Gwahoddiad i fynd i Gyfarfod Ymgynghorol y Cyngor Sir – gwahoddwyd eitemau posib erbyn y cyfarfod nesaf.	a)	Invitation to County Council Consultative possible items invited by next meeting
b)	Roedd perchnogi ciosg Llanon yn mynd yn ei flaen – gwahoddwyd cynigion am ei ddefnydd i'w trafod yn y cyfarfod nesaf	b)	Llanon kiosk acquisition was proceeding – suggestion for uses were invited for consideration at the next meeting
c)	Dylid rhoi gwybod i'r Cynghorydd Dafydd Edwards am unrhyw ddatblygiadau gydag arosfannau bysus yn Llanon	c)	Councillor Dafydd Edwards to be informed of any developments with the bus shelters in Llanon
d)	Gofyn am ganiatad perchennog Stad Craig Ddu i osod hysbysfwrdd yno	d)	To request the landowner's permission to locate a noticeboard at Stad Craig Ddu
a)	Gofynwyd i'r Cynghorydd Dafydd Edwards ddilyn i fyny y pla honedig o lygod mawr ar Gaeau'r Albion (pen James Close)	a)	Councillor Dafydd Edwards was asked to follow up the alleged rat infestation at the Albion Fields (James Close end)
b)	Roedd angen rhoi Draig Goch newydd ar y polyn o flaen Ysgol Gynradd Llan-non.	b)	There was a need to replace the Ddraig Goch on the flag pole in front of Ysgol Gynradd Llan-non
c)	Adroddwyd digwydduadau diweddar o ymddygiad gwrrh-gymdeithasol yn Llanon	c)	Recent incidents of anti-social behaviour were reported in Llanon
d)	Roedd angen sicrhau fod cennyn Pedr yn cael eu plannu o flaen datblygiad Parc Peris	d)	It was still needed to ensure planting along the verge of the new Parc Peris development
e)	Fe danlinelloedd y Cynghorydd Bryan Tomlins yr angen i ymestyn Ardal Gadwraeth Llansantffraed er mwyn rhwystro rhagor o ddatblygiad tai i gynnwys y tir y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod.	e)	Councillor Bryan Tomlins re-emphasised the need to extend the Llansantffraed Conservation Area to include land identified at the meeting in order to prevent further housing development.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15pm

The meeting concluded at 9:15pm